# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU
# PANEL GWEITHREDOL

Cofnodion Cyfarfod Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 28 Hydref 2013 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Llanelwy. Cychwynnodd y cyfarfod am 2pm.

YN BRESENNOL

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd: | |
| M Ll Davies (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| P R Lewis (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| L W Davies | Cyngor Sir Ynys Môn |
| R Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| A Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| H McGuill | Cyngor Sir y Fflint |
| P W Owen | Cyngor Sir Ddinbych |
| W R Owen | Cyngor Gwynedd |
| W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| R E Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| P Pemberton | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

HEFYD YN BRESENNOL:

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); G Owens (Dirprwy Glerc a Swyddog Monitro); K Finch (Trysorydd); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); P Claydon, R Simmons a R Fairhead (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); G Brandrick (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); G W Griffiths (Uwch Reolwr Datblygu); L Roberts (Uwch Reolwr Rheoli a Dilyniant Busnes); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); Rh Williams (Swyddog Cyfathrebu Corfforaethol); J Brown (Rheolwr Cyllid Dros Dro); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau).

Ymddiheuriadau:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cynghorydd J M Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| P Claydon | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| K Roberts | Uwch Reolwr Gweithrediadau |

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau ystyried trefn y rhaglen a chytunwyd bod y llythyr Asesiad Gwella yn cael ei drafod ar ôl y materion yn codi.

Ar y pwynt hwn, atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau ynglŷn â digwyddiadau dathlu llwyddiannau Phoenix. Gwahoddir yr Aelodau i fynychu'r digwyddiadau hyn yn eu gorsafoedd lleol ac anogodd y Cadeirydd yr Aelodau i fynychu i gael gweld y gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud gyda phobl ifanc a hefyd i gefnogi staff y Gwasanaeth sy'n ymwneud â'r cwrs.

1 DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Dim.

2 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 15 GORFFENNAF 2013

2.1 Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf i'w cymeradwyo.

2.2 Gofynnodd y Cynghorydd Pemberton am gael newid 8.6 gan nad oedd yn adlewyrchu'r sylw a wnaeth yn y cyfarfod.

2.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion yn amodol ar newid paragraff 8.6.**

3 MATERION YN CODI

3.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

4 LLYTHYR ASESIAD GWELLA

4.1 Croesawyd Lisa Williams o Swyddfa Archwilio Cymru i'r cyfarfod ac fe gyflwynodd y llythyr asesiad gwella. Dyma'r adroddiad cyntaf ar gyfer y flwyddyn archwilio newydd ac roedd yn ystyried y trefniadau cynllunio yr oedd y sefydliad wedi eu rhoi ar waith i benderfynu ar ei gynlluniau ar gyfer 2013/14, yr amcanion gwella a sut roeddynt wedi eu pennu. Dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, roedd angen i'r Archwiliwr Cyffredinol roddi dwy farn – bod y sefydliad wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru a bod y sefydliad yn cydymffurfio gyda'r gofynion i wneud trefniadau i sicrhau gwelliannau parhaus. Cadarnhaodd Ms Williams bod yr Archwiliwr Cyffredinol yn fodlon bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau ac yn bodloni gofynion y Mesur.

4.2 Tynnodd Ms Williams sylw'r Aelodau at y cynigion a awgrymwyd ar gyfer gwella ac yn benodol yr ail gynnig i 'ddangos yn benodol sut roedd gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 wedi eu hystyried wrth bennu a monitro amcanion gwella trwy ymgymryd ag Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb yn ystod 2013-14'. Dywedodd Ms Williams bod angen i'r Awdurdod sicrhau bod asesiad manylach o'r effaith ar gydraddoldeb yn delio ag amcanion gwella ar gyfer 2013-14 yn cael ei gwblhau i sicrhau bod yr Awdurdod wedi ystyried yr holl nodweddion gwarchodedig fel y nodwyd yn y Ddeddf Cydraddoldeb.

4.3 Yna gwahoddwyd yr Aelodau i holi cwestiynau ynglŷn â'r llythyr. Cyfeiriodd y Cynghorydd P Lewis at baragraff 2 ar dudalen 3 y llythyr ynglŷn â'r Awdurdod yn cymharu ei hun gyda sefydliadau eraill. Holodd y Cynghorydd Lewis pa sefydliadau eraill y dylai'r Awdurdod ei gymharu ei hun â hwy, a pha feysydd y dylid eu cymharu; teimlai'r Cynghorydd Lewis mai'r maes pwysicaf i'w ystyried yw sut y mae'r Awdurdod wedi cyflwyno ei wasanaethau i'r cyhoedd ac y byddai'n anodd cymharu'r maes gwaith hwn gyda sefydliadau eraill. Atebodd Ms Williams bod hyn yn her a oedd yn wynebu'r holl awdurdodau, wrth geisio canfod awdurdodau addas i gael cymariaethau perthnasol, a'i bod yn ofyniad dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd fedru cymharu sefydliadau. Anogodd Ms Williams yr Awdurdod i edrych y tu allan i Gymru i gael cymhariaeth ehangach ar faterion tân ac achub ac mewn perthynas â gweithgareddau penodol eraill, gellid

cymharu'r rhain gydag awdurdodau lleol a chyrff eraill sector cyhoeddus. Rhybuddiodd y Trysorydd yn erbyn cymharu gormod gyda sefydliadau y tu allan i Gymru gan fod eu trefniadau ariannu hwy yn wahanol a gallai olygu bod y cymariaethau yn anaddas.

4.4 Nododd y Prif Swyddog Tân y gallai cymharu perfformiad arwain at feincnodi yn erbyn sefydliadau eraill a'i bod hefyd yn aneglur sut y gallai cymharu ychwanegu gwerth i'r gwasanaethau a gyflwynwyd i'r cyhoedd. Roedd y PST yn bryderus y gallai swyddogion dreulio llawer o amser yn cymharu gwybodaeth ac na fyddai o unrhyw werth penodol na defnydd yn y diwedd ac na fyddai'n trosi'n gamau ystyrlon.

4.5 Holodd y Cynghorydd Lewis a fyddai cwynion yn un pwnc addas i'w gymharu. Esboniodd Ms Williams nad oedd y Mesur yn benodol ynglŷn â pha feysydd y dylid eu cymharu a bod y broses yn ymwneud â darparu barn gytbwys i'r cyhoedd er mwyn iddynt fedru cymharu gwasanaethau. Awgrymodd Ms Williams y gallai hyn ffurfio rhan o waith yr Awdurdod yn ymgysylltu â'r cyhoedd a ffordd o drafod yr elfen ariannu er mwyn i'r cyhoedd weld pam fod gwahaniaethau.

4.6 Diolchodd y Cadeirydd i Ms Williams am ei gwaith a'i chyflwyniad a bu i'r Aelodau **BENDERFYNU cydnabod yr wybodaeth a ddarparwyd.**

5 OPSIYNAU CYLLIDEB

5.1 Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân yr adroddiad a oedd yn diweddaru'r Aelodau ar y cynnydd a wnaed yn datblygu cyllideb ddrafft yr Awdurdod Tân ac Achub ar gyfer 2014-15 yn barod i'w chyflwyno i'r Awdurdod yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr.

5.2 Roedd y setliad refeniw a chyfalaf llywodraeth leol amcanol ar gyfer 2014-15 wedi ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru. O ben i ben bydd gostyngiad ar gyfartaledd yn y cyllid i gynghorau Gogledd Cymru o 3.6% yn 2014-15 ac 1.6% yn 2015-16. Barn y Trysorydd oedd y gallai'r ffigwr gwirioneddol, ar ôl ystyried chwyddiant a'r ffaith bod rhai eitemau yn y gyllideb wedi eu clustnodi, fod yn ostyngiad o ryw 6.5%.

5.3 Hysbyswyd yr Aelodau mai'r risgiau sy'n ymwneud â llunio'r gyllideb yw rhagolygon dyfarniad cyflog uwch na'r disgwyl a lefelau gweithgaredd uwch. Roedd posibilrwydd hefyd o leihau neu ddileu grantiau uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru sydd ar hyn o bryd yn cyfrannu tuag at waith ataliol yr Awdurdod. Roedd yr Aelodau wedi dod i'r casgliad yn y gorffennol nad oedd mwy o arbedion arwyddocaol i'w cael yng nghyllideb yr Awdurdod heb leihau'r gwasanaeth a ddarperir.

5.4 Atgoffodd y Trysorydd yr Aelodau eu bod yn cynrychioli buddiannau Gogledd Cymru gyfan a bod swyddogion angen cyfarwyddyd ar sut i lunio cyllideb ddrafft a fyddai'n dderbyniol i Aelodau'r Awdurdod yng nghyfarfod mis Rhagfyr. Teimlai'r Trysorydd y bydd cynghorau ledled Gogledd Cymru yn disgwyl i'r Awdurdod Tân ac Achub gysgodi lefel gostyngiadau canrannol sy'n wynebu rhannau o gyllidebau awdurdod lleol nas amddiffynnir. Dywedodd y Trysorydd hefyd bod canfod ateb blaengar ar gyfer 2014-15 y tu hwnt i resymol yn y cyfnod hwyr hwn yn y flwyddyn ariannol.

5.5 Hysbysodd y DBST yr Aelodau, nawr bod prosiect gorsaf dân ac ambiwlans ar y cyd Wrecsam yn mynd rhagddo, y gellid gwrthdroi'r swm credydwr £800,000 a oedd yn y cyfrifon refeniw ar gyfer 2012-13; roedd £100,000 wedi ei neilltuo rhag ofn y byddai cyfraddau llog yn uwch a thybiwyd na fyddai angen hyn yn y dyfodol agos, a hefyd bod £100,000 yn y gronfa gyffredinol, a gellid ei ychwanegu at £1 filiwn a ellid ei ddefnyddio i gynnal y gyllideb yn 2014-15, a fyddai'n cynrychioli gostyngiad o 3%. Teimlai'r Trysorydd y byddai defnyddio £100,000 o'r gronfa gyffredinol i gynnal cyllideb yn risg.

5.6 Dywedodd y PST bod dychwelyd y £800,000 i'r gyllideb yn cynrychioli ateb a fyddai'n rhoi'r Awdurdod mewn sefyllfa o fod â gostyngiad o 3%. Fodd bynnag, tynnodd y PST sylw'r Aelodau at y ffaith bod gostyngiad o 3% yn 2014-15 yn golygu gorfod canfod £1 filiwn arall mewn arbedion ar gyfer 2015-16 er mwyn cael cyllideb sefydlog, ac y byddai hyn cyn ystyried unrhyw arbedion ychwanegol y byddai eu hangen i dalu chwyddiant cyflog a phrisiau. Esboniodd y PST bod yr Awdurdod, dros y tair blynedd ddiwethaf, wrth reoli'r gyllideb yn dda ac yn ofalus a chyda lefel gweithrediadau, wedi medru creu cronfa wrth gefn. Teimlai fod hyn yn dangos bod swyddogion wedi bod yn cynllunio ac ystyried dulliau gwahanol o ddarparu'r gwasanaethau yn y modd mwyaf effeithiol heb leihau'r ddarpariaeth. Atgoffwyd yr Aelodau hefyd o'r drafodaeth barhaus rhwng swyddogion a chynrychiolwyr yr FBU yn ystyried dulliau blaengar o weithio a fydd yn costio llai, ond nid yw hyn yn debygol o gynhyrchu'r holl arbedion sydd eu hangen.

5.7 Cydnabu'r Cynghorydd Lewis bod aelodau'n cynrychioli'r ATA yn hytrach na'u cynghorau eu hunain. Fodd bynnag, o safbwynt annibynnol, teimlai'r Cynghorydd Lewis bod y cynghorau a'r ATAau wedi gwneud popeth a fedrent i gael arbedion a'u bod nawr yn wynebu dewisiadau anodd. Ei gynnig felly oedd bod yr £1 filiwn yn cael ei defnyddio i alluogi cyllideb sefydlog, ar sail y ffaith y gall gwaith da'r PMC gael arbedion pellach i GTAGC sydd eto i'w hadnabod, ac y gallai hyn roddi mwy o gyfle mewn perthynas â chyllideb 2015-16.

5.8 Mewn ymateb i gwestiwn y Cynghorydd McGuill yn holi a fyddai'r toriad o 28 swydd diffoddwyr tân a grybwyllwyd yn yr adroddiad yn golygu dileu swyddi neu adleoli, cadarnhaodd y PST mai dileu swyddi fyddai. Fodd bynnag, pan oedd yr Awdurdod wedi penderfynu dileu swyddi yn y gorffennol, roedd yr Aelodau wedi ei wneud yn glir nad oeddynt yn dymuno gweld diswyddo gorfodol.

5.9 Ar ôl ateb cwestiynau'r Aelodau, symudodd y Cadeirydd ymlaen at yr argymhellion yn yr adroddiad. Mewn perthynas ag argymhelliad (iii), dywedodd y DBST bod nifer o opsiynau ar gael. Gallai'r Aelodau benderfynu rhoi £1 filiwn yn y gyllideb i'w chynnal fel y soniwyd uchod, neu opsiwn arall fyddai neilltuo'r arian hwnnw a rhewi'r gyllideb. Esboniodd y DBST, cyn belled â na fyddai cynnydd mewn gweithgaredd, yna gallai'r Awdurdod o bosib ymdopi o fewn paramedrau sefyllfa sefydlog, ond pe byddai cynnydd mewn gweithgaredd, byddai'r £1 filiwn ar gael i syrthio'n ôl arni. Teimlai'r Aelodau mai dyma fyddai'r opsiwn diogelach.

5.10 **PENDERFYNODD yr Aelodau**

**(i) gydnabod y risgiau ynglŷn â phennu cyllideb sefydlog ar gyfer 2014-15;**

**(ii) cadarnhau eu bod yn dymuno argymell i'r Awdurdod bod cyllideb 2014-15 yn cael ei hadeiladu ar sail lefel bresennol y gwasanaeth;**

**(iii) argymell i'r Awdurdod ei fod yn rhewi'r gyllideb am bedwaredd flwyddyn a symud £1 filiwn i gronfa gyffredinol y gellid ei defnyddio i dalu unrhyw orwariant a allai godi oherwydd mwy o weithgaredd. Nodwyd, cyn belled â nad oedd cynnydd mewn gweithgaredd, y gallai'r Awdurdod ymdopi o fewn paramedrau cyllideb wedi ei rhewi. Fodd bynnag, pe byddai cynnydd mewn gweithgaredd, yna byddai cronfeydd cyffredinol ar gael i syrthio yn ôl arnynt.**

6 MONITRO PERFFORMIAD

6.1 Cyflwynodd y Rheolwr Cynllunio Corfforaethol yr adroddiad a oedd yn darparu gwybodaeth monitro perfformiad ar gyfer hanner cyntaf y flwyddyn o 1 Ebrill 2013 i 30 Medi 2013.

6.2 Nodwyd y materion canlynol:

- Cynnydd yn y tanau damweiniol mewn anheddau o gymharu â'r un cyfnod y llynedd, ac mae'r ffigwr hefyd yn uwch na ffigwr cyfartalog tair blynedd
- O ran anafiadau yn deillio o danau damweiniol mewn anheddau, roedd 1 person wedi ei anafu'n ddifrifol yn y cyfnod 6 mis ac roedd 21 wedi dioddef mân anafiadau
- Roedd yn dda nodi, er gwaethaf y cynnydd mewn tanau mewn anheddau, bod nifer yr anheddau lle'r oedd tanau wedi digwydd lle nad oedd larwm mwg wedi gostwng
- Mewn perthynas ag archwiliadau diogelwch tân yn y cartref, roedd y Gwasanaeth wedi curo ei darged 25% o gael cyfeiriadau gan sefydliadau partner
- Bu gostyngiad mewn gwrthdrawiadau ar y ffordd a digwyddiadau eraill gwasanaeth arbennig.

6.3 Tynnodd y Rheolwr Cynllunio Corfforaethol sylw'r Aelodau at bwysigrwydd edrych ar gyfraddau digwyddiadau yn y tymor hir yn hytrach na chanolbwyntio ar gymariaethau gyda'r flwyddyn flaenorol yn unig, oherwydd efallai bod y flwyddyn flaenorol yn eithriadol. Er enghraifft, dangosodd yr adroddiad bod cyfanswm nifer y tanau yn hanner cyntaf y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn eithriadol o isel, felly byddai'r nifer yn hanner cyntaf eleni bron yn anochel yn uwch, er bod y nifer yn arwyddocaol is na mewn blynyddoedd blaenorol. Yn yr un modd, roedd nifer y digwyddiadau gwasanaeth arbennig a fynychwyd y llynedd wedi bod yn arbennig o uchel oherwydd llifogydd, ond roedd y nifer eleni yn fwy cyson gyda blynyddoedd blaenorol.

6.4 Nododd y Cynghorydd Lewis ei fod yn adroddiad da a'i bod yn anffodus nad yw'r ffigurau ar gyfer hanner cyntaf eleni yn adlewyrchu'r ffigurau ar gyfartaledd dros y cyfnod tair blynedd. Gan edrych ar y cynnydd gwirioneddol yn hytrach na chanrannau, teimlai'r Cynghorydd Lewis bod y niferoedd mor fychan, y dylai'r adroddiad ddangos lliw ambr ar gyfer y cynnydd bach yn hytrach na choch gan fod rhesymau cadarn y tu ôl i'r cynnydd, megis y tywydd. Cydnabuwyd bod lleihau nifer tanau damweiniol mewn anheddau yn nod sylfaenol ac felly roedd yn bwysig cynnal proffil hyn, ond awgrymodd y Cynghorydd Lewis y dylid cael colofn ychwanegol yn dangos cyfartaledd tair blynedd a fyddai'n fwy ystyrlon a byddai'n delio â'r mater. Nododd y PST ei fod yn bwynt da ac y gallai swyddogion efallai ystyried system goleuadau traffig debyg yn dangos y cyfartaledd dros dair blynedd. Awgrymodd y Trysorydd osod lefel oddefiant o ran pryd byddai'r ffigurau yn achosi pryder gwirioneddol, a dangos blwch coch yn bendant.

6.5 O ran digwyddiadau gwasanaeth arbennig, teimlai'r Cynghorydd McGuill nad oedd y ffigurau ar eu pennau eu hunain yn rhoi iddi hi, na'r cyhoedd, syniad o'r digwyddiadau a pha mor hir roedd diffoddwyr tân wedi ei dreulio yn y digwyddiad. Er enghraifft, byddai'r llifogydd wedi golygu bod y ddiffoddwyr tân wedi bod yno am oriau, ond byddai ond yn cael ei gofnodi fel un digwyddiad. Awgrymodd y PST y dylai adroddiadau yn y dyfodol gynnwys mwy o fanylion ynglŷn â digwyddiadau o'r fath er gwybodaeth i'r aelodau.

6.6 **PENDERFYNWYD**

**(i) cydnabod yr wybodaeth a ddarparwyd;**

**(ii) cynnwys yr wybodaeth ganlynol mewn adroddiadau monitro perfformiad i'r dyfodol:**

- **Colofn ychwanegol goleuadau traffig yn y tablau perfformiad yn dangos ffigwr ar gyfartaledd dros y cyfnod tair blynedd ddiwethaf;**
- **Digwyddiadau penodol y mae diffoddwyr tân wedi eu mynychu gan fod yno am nifer o oriau.**

7 PROSIECT TÂN AC AMBIWLANS WRECSAM

7.1 Ar ôl penderfyniad yr Awdurdod i barhau gyda'r prosiect yn ei gyfarfod ar 16 Medi, rhoddodd yr adroddiad ddiweddariad i'r Aelodau ar y datblygiadau diweddaraf, a gofyn hefyd i'r Aelodau ddewis cynrychiolydd i fynychu cyfarfodydd Bwrdd y Prosiect.

7.2 Hysbysodd y PST yr Aelodau o'r cerrig milltir newydd o fewn y rhaglen ac y byddai achos busnes llawn yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn Chwefror 2014, ac mai dyddiad cwblhau'r gwaith adeiladu fyddai ddiwedd Medi 2015.

7.3 Roedd bwrdd y prosiect wedi ailystyried ei amodau cyfeirio ac wedi awgrymu aelod-gynrychiolydd ATA ar y bwrdd i roddi peth annibyniaeth er mwyn sicrhad. Cynghorwyd yr aelodau i beidio ag enwebu aelod o Wrecsam oherwydd materion datgan buddiannau. Cynigiodd y Cynghorydd P Lewis y Cynghorydd H McGuill ac eiliwyd hyn gan yr Aelodau.

7.4 **PENDERFYNWYD**

**(i) cydnabod cynnwys yr adroddiad;**

**(ii) enwebu'r Cynghorydd H McGuill i gynrychioli'r ATA ar fwrdd y prosiect.**

8 PROSIECT GWASANAETH TÂN AC ACHUB YNG NGHYMRU

8.1 Roedd y PST wedi hysbysu'r Aelodau eisoes am y prosiect tri cham a rhoddodd ddiweddariad i'r Aelodau. Y cam cyntaf oedd casglu gwybodaeth ar waith y tri GTA yng Nghymru ac mae hyn i'w gwblhau gan y tri PST yn y man. Bydd y cam nesaf yn cynnwys dadansoddi a chymharu data, a disgwylir i hyn adnabod tueddiadau. Un o'r rhain fydd llywodraethu a bydd yn cynnwys y Gweinidog yn ystyried siâp a chyfansoddiad ATA yng Nghymru.

8.2 **PENDERFYNWYD cydnabod yr wybodaeth a ddarparwyd.**

RHAN II – Dan Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972, gofynnwyd i'r wasg a'r cyhoedd adael y cyfarfod tra'r ystyriwyd yr eitem ganlynol oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu iddynt, fel y diffinnir ym Mharagraffau 12 i 18 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Dim ond y swyddogion canlynol a arhosodd yn y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon: Prif Swyddog Tân, Dirprwy Glerc, Trysorydd, Dirprwy Brif Swyddog Tân, Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol, Swyddog Cyswllt Aelodau a'r Cyfieithydd.

9 GWEITHREDU DIWYDIANNOL

9.1 Diweddarodd y PST yr Aelodau ynglŷn â'r datblygiadau diweddaraf mewn perthynas â gweithredu diwydiannol gan Undeb y Brigadau Tân (FBU) ynglŷn â newidiadau pensiwn. Yn wreiddiol roedd hwn yn anghydfod rhwng yr FBU a'r Llywodraeth, ond nawr roedd y cyflogwyr cenedlaethol yn rhan o'r mater. Ers cyhoeddi'r adroddiad, roedd dyddiadau streicio pellach wedi eu cyhoeddi, un ar gyfer 1 Tachwedd ac un arall ar 4 Tachwedd. Bydd gohebiaeth ebost gan y PST yn parhau i gael ei hanfon at yr Aelodau ar y mater.

9.2 Yna, cyflwynodd Richard Fairhead PSTC yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybodaeth i'r Aelodau ar baratoi ar gyfer, ac effaith y gweithredu diwydiannol a ddigwyddodd ar 25 Medi.

9.3 Nodwyd bod y Tîm Rheoli Dilyniant Busnes wedi cyfarfod yn rheolaidd ac ar ôl cyfnod y streic, cyfarfu'r tîm i drafod meysydd arferion da a dadfriffio ar bob elfen o'r cynllun. Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod nodwyd y byddai cost ariannol y streic yn cael ei darparu i gyfarfod yr Awdurdod yn y dyfodol.

9.4 **PENDERFYNWYD cydnabod yr wybodaeth a ddarparwyd.**